CEFNFFORDD YR A494 (GWYDDELWERN, SIR DDINBYCH) (TERFYN CYFLYMDER 40 MYA DROS DRO) 201-

MAE GWEINIDOGION CYMRU yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na 7 niwrnod i ddyddiad yr Hysbysiad hwn. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr y ffordd hyd nes y bydd cynllun uwchraddio ffordd yn cael ei datblygu ar gefnffordd yr A494 wrth droeon Maes Gamedd, Gwyddelwern, Sir Ddinbych.

Disgwylir y bydd y cyfyngiad, y codir arwyddion priodol ynghylch ei hyd a'i led, yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 1 Chwefror 2017 ac y bydd yn parhau mewn grym am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gosod terfyn cyflymder dros dro o 40 mya ar y darn o'r A494 sy'n ymestyn o bwynt sy'n 79 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at yr anheddau a elwir Bryn-du a Maerdy, i'r gogledd o Wyddelwern hyd at bwynt sy'n 217 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

M D BURNELL
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru

THE A494 TRUNK ROAD (GWYDDELWERN, DENBIGHSHIRE) (TEMPORARY 40 MPH SPEED LIMIT) ORDER 201-

THE WELSH MINISTERS propose, in not less than 7 days from the date of this Notice, to make an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to ensure the safety of road users until a road upgrade scheme is developed on the A494 trunk road at Maes Gamedd bends, Gwyddelwern, Denbighshire.

The restriction, the extent of which will be signed accordingly, is expected to come into force at 00:01 hours on 1 February 2017 and remain in force for a maximum duration of 18 months.

The effect of the proposed Order will be to temporarily impose a 40 mph speed limit on the length of the A494 that extends from a point 79 metres south-east of its junction with the unclassified road leading to the dwellings known as Bryn-du and Maerdy, north of Gwyddelwern to a point 217 metres north of that junction.

M D BURNELL
Transport, Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print brasach gan Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.
A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.